CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL
Cadeirydd: Gari B Jones
Nos Fawrth Gorffennaf 30ain 2024 am 7.30 y.h.

# Cofnodion (116)

**Cyfarfod Ychwanegol**

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gwynfor Roberts, Cyng. Sirol Gwennol Ellis
2. **Presennol:** Cyng. Gari B Jones, Gerallt Jones, Gethin Pyrs, Alun Owen, Edmund Rees ac Enid Williams Clerc
3. **Astudiaeth Dichonolrwydd –** derbyniwyd y grant gan o £2215.40 gan Gyngor Conwy. Derbyniwyd anfoneb gan Gwion Jones (Ymgynghorwyr Amgen Cyf.) am wneud y gwaith yn ardal Pentrefoelas ynglŷn ag adfywio'r ardal o £2461.00. Derbyniwyd y grant gan Gyngor Conwy am £2215.40, gwahaniaeth o £245.60 sy'n cyfateb o 10%. Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol bod angen unrhyw arian cyfatebol ar gyfer yr astudiaeth. Fodd bynnag, nid oedd dewis heblaw talu'r anfoneb yn llawn.
4. **Anfonebau:**
   - 4.1. Ymgynghorwyr Amgen Cyf. (Gwion Jones) Cynigiodd Edmund Rees gydag Alun Owen yn eilio talu'r anfoneb o **£2461.00** gyda siec rhif **100411**.
   - 4.2. Defib Store Ltd. Cynigiodd Gethin Pyrs gyda Gerallt Jones yn eilio talu'r anfoneb am y celfi o £174.00 + TAW £34.80 = **£208.80** gyda siec rhif **100412**.
5. **Cais Cynllunio:**
   - 5.1. Cyfeirnod 0/51860
     Safle Bwthyn Sian, Llwyn Onn, Rhydlydan, Pentrefoelas LL24 0LL
     Cynllun Newid defnydd gardd/tir amwynder i ddefnydd twristiaeth gan osod dau gwt bugail a gwaith cysylltiedig.
     Ni chafwyd sylwadau na gwrthwynebiad i'r cais.
6. **CBSC – cau toiledau** – cafwyd trafodaeth fanwl ar y pwnc gan fod Cyngor Conwy am gau'r toiledau cyhoeddus ar Fedi 4ydd 2024. Cytunwyd disgwyl am ffigyrau costau ac elw o redeg yr adeilad ac yna cael trafodaeth bellach i drafod y canlyniadau.
7. **Unrhyw fater arall:**
   Dim

   Trefnwyd pwyllgor ychwanegol i drafod y ffigyrau amgaeedig

Arwyddwyd________________________ Dyddiad___03.09.24______
Cadeirydd